

Hysbysiad Preifatrwydd – Yr Hawl i Fod yn Ddiogel – atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae'r tîm Polisi Diogelu ac Eiriolaeth yn Llywodraeth Cymru'n cyflwyno digwyddiad dysgu a chynhadledd ddigidol o bell ar brynhawn 18 Tachwedd fel rhan o Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2021.

Bydd y data a gasglwyd fel rhan o Smart Survey yn cael eu defnyddio i ddiben prosesu a'ch galluogi chi i fod yn bresennol / cymryd rhan yn nigwyddiad Hawl i Fod yn Ddiogel - atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru.

Pa ddata personol a ddelir gennym, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ffactor adnabod.

Fel y Rheolydd Data, bydd Llywodraeth Cymru'n rhannu doleri i ffurflen datgan diddordeb i gymryd rhan yn y digwyddiad drwy flwch diogelu ac eiriolaeth Llywodraeth Cymru.

Os hoffech gymryd rhan yn y digwyddiad, bydd angen ichi gwblhau ffurflen datgan diddordeb gan nodi eich manylion cyswllt a'ch ffafriaeth o ran cymryd rhan yn y digwyddiad.

Bydd y ffurflen yn gofyn am yr wybodaeth personol a ganlyn:

- Enw
- Swydd
- Sefydliad
- Cyfeiriad E-bost
- Dewis iaith

Yna bydd Llywodraeth Cymru'n anfon e-bost atoch gyda'r ddolen i'r digwyddiad ei hun.

Er y bydd tîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru'n gwybod eich enw, ni fydd unrhyw un o'r bobl eraill yn y digwyddiad yn gweld pwy ydych chi. Bydd hyn yn sicrhau cyfrinachedd ar gyfer pawb sy'n rhan o'r digwyddiad.

Gyda phwy rydym yn rhannu'ch gwybodaeth?

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich data ag unrhyw un arall.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Ein tasg gyhoeddus, hynny yw arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru, yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Bydd data personol a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw ar weinydd diogel, ac ar gyfer y digwyddiad hwn mae ffolder wedi'i greu sy'n rhoi mynediad cyfyngedig i'r tîm Diogelu ac Eiriolaeth uniongyrchol yn unig. Bydd eich manylion cyswllt ac unrhyw ddata personol y byddwch yn dewis eu darparu yn cael eu storio yn y ffolder cyfyngedig hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio rhaglen feddalwedd Smart Survey i gynnal arolygon. Rydym wedi sicrhau bod Smart Survey yn cydymffurfio â GDPR y DU. Mae hefyd yn bodloni ein disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata a gesglir drwy'r feddalwedd (e.e. mae'r data yn cael eu prosesu o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd).

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Bydd unrhyw ddata personol nad ydynt eisoes wedi eu dileu yn ystod y broses brosesu data yn cael eu dileu gan y tîm Diogelu ac Eiriolaeth dri mis ar ôl y digwyddiad. Mae hynny'n cynnwys eich manylion cyswllt.

Hawliau'r Unigolyn

O dan GDPR y DU mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r ymchwil hwn:

- I weld copi o'ch data eich hun;
- I'w gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- I wrthwynebu neu gyfyngu unrhyw brosesu (o dan amgylchiadau penodol);
- I fynnu bod eich data'n cael ei ddileu (o dan amgylchiadau penodol); ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: Dr Sam Clutton

Cyfeiriad e-bost: Sam.clutton@llyw.cymru

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost:
SwyddogDiogluData@llyw.cymru.

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745
neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk